# Cyfarfod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

# Cofnodion

### 8 Mawrth 2018 – Caerdydd 3, Parc Cathays

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Daniel Groves (DG) | Cadeirydd (Annibynnol) |
| Katie Dalton (KD) | Cymorth Cymru |
| Naomi Alleyne (NA) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Will Atkinson (WA) | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Helen Jones (HJ) | Atal y Fro (Cynrychiolydd y Grŵp Ymchwil a Chyllid) |
| Helen Northmore (HN) | Annibynnol |
| Nigel Stannard (NS) | Cynrychiolydd Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl |
| Sarah Rhodes (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Rob Owen (RO) | Llywodraeth Cymru |
| Angharad Rogers (AR) | Llywodraeth Cymru |
| Paul Webb (PW) | Llywodraeth Cymru |
| Julie Llewellyn (JL) | Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Philip Howells (PH) | Arweinyddiaeth Tai Cymru |
| Frances Beecher (FB) | Grŵp Llywodraethu |
| Diane Binding (DB) | Gwasanaeth Prawf |
| Josie Smith (JS) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Emma Williams (EW) | Llywodraeth Cymru |
| Mansel Aylward (MA) | GIG |
| Claire Marchant (CM) | ALl Sir Fynwy |

| Nodyn | Gweithredu |
|---|---|
| **1. Croeso a Chyflwyniadau** | |
| Gwnaed cyflwyniadau er budd yr aelodau newydd. | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi** | |
| • Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.<br>• Gwnaeth y Bwrdd gydnabod Daniel Groves fel ei Gadeirydd dros dro newydd ... | |
| **3. Cynllun Gweithredu Cysgu Allan** | |
| • Cyflwynodd Sarah Rhodes ei hun fel y Pennaeth Atal Digartrefedd newydd, yn cymryd drosodd gan Simon Prothero sydd bellach yn Bennaeth Rheoli Tai.<br>• Cyflwynodd SR a RO y Cynllun Gweithredu Cysgu Allan dwy flynedd a cheisio sylwadau oddi wrth y Bwrdd ar ei gynnwys.<br>• Cydnabuwyd bod y cynllun yn ddogfen lefel uchel dda, fodd bynnag bellach mae angen cynllun gweithredol sy'n eistedd oddi tano, a fydd yn nodi cyflawniad penodol (e.e. amserlenni, cyfrifoldebau).<br>• Dywedodd KD fod angen mwy o fesurau sy'n ymwneud ag atal, a chydnabyddiaeth nad yw rhai pobl sy'n cysgu allan yn gallu defnyddio rhai darpariaethau.<br>• Hefyd dywedodd KD fod gan bawb rôl i'w chwarae wrth gyflawni'r cynllun. Mae angen trafodaeth/gweithredu pellach o gwmpas Tai yn Gyntaf ac mae angen i wahanol feysydd polisi Llywodraeth Cymru gydweithio (h.y. iechyd meddwl a thai). Hefyd mae angen i Wasanaethau Iechyd Arbenigol gymryd rhan.<br>• Cadarnhaodd WA fod trafodaethau yn mynd rhagddo'n dda mewn cyfarfodydd Rhwydwaith Tai yn Gyntaf; maent bellach yn y cam gweithredu.<br>• Gofynnodd NS am fanylion am y mesurau atebolrwydd a gofyn beth fydd y mecanweithiau adrodd.<br>• Cadarnhaodd SR fod hon yn ddogfen sy'n datblygu, ac y bydd cynllun gweithredu penodol yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol agos. Bydd hi'n edrych ar strwythurau llywodraethu a mecanweithiau adrodd, a bydd mwy o ymgysylltu â rhwydweithiau sefydledig.<br>. | |
| **4. Trafodaeth a Newyddion Diweddaraf Cyllido Hyblyg** | |
| • Cadarnhaodd PW fod dyraniadau grant wedi cael eu rhoi i bob awdurdod lleol erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylid dyrannu cyllid i raglenni Cefnogi Pobl | |

| | |
|---|---|
| (SP) ar lefel y dyraniad SP o leiaf, oni bai eu bod yn gallu dangos y gallant fod yn siŵr o gyflawni'r un gwasanaethau, neu well gwasanaethau, am lai o arian o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd.<br>• Mae LlC wrthi'n asesu'r cynlluniau cyflawni a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol braenaru. Cwestiynodd y Bwrdd pam fod yn rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud mor gyflym a dywedwyd bod popeth yn teimlo'n frysiog iawn. Cadarnhaodd PW fod y cylch grant ar gyfer cyllideb 2 flynedd, felly bydd angen gwneud y penderfyniad erbyn 2019/20.<br>• Cadarnhaodd PW y bydd y gwerthusiad yn broses ailadroddol, yn canolbwyntio ar wersi a ddysgwyd o'r broses yn hytrach nag effaith cyflawni. Cododd y Bwrdd nifer o bryderon ynglŷn â'r ymarfer gwerthuso a'r amserlen benderfynu, gan ddweud na fydd unrhyw dystiolaeth werthfawr er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Gofynnodd y Bwrdd i gopi o gylch gorchwyl yr ymarfer gwerthuso gael ei ddosbarthu i aelodau.<br>• Ceisiodd y grŵp yn eglurder ynglŷn â'i rôl wrth drafod y mater hwn a rhoi cyngor i'r Gweinidog. Cadarnhaodd PW fod y Gweinidog wedi cytuno ar gyfeiriad teithio yn unig ar y mater hwn ac nid yw wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Mae gan y bwrdd rôl i nodi eu barn/ystyriaethau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniad terfynol y Gweinidog.<br>• Dywedodd DG ei bod yn bwysig cael y trafodaethau hyn. Nid oes yn rhaid i'r Bwrdd gyrraedd barn gytûn ar y cyd, gan gydnabod y bydd gwahanol sefydliadau a gynrychiolir ar y Bwrdd yn meddu ar wahanol broblemau/safbwyntiau ynglŷn â'r materion hyn. Awgrymwyd bod y safbwyntiau hyn yn cael eu casglu a'u coladu a bod papur yn dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf i'w ystyried i'w gyflwyno i'r Gweinidog. Bydd ysgrifenyddiaeth y grŵp yn coladu'r ymatebion. | LlC i ddosbarthu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymarfer gwerthuso<br><br>JL i anfon comisiwn â thempled i gael safbwyntiau/ystyriaethau'r Bwrdd a choladu papur ar gyfer cyfarfod nesaf SPNAB. |
| **5. Newyddion Diweddaraf** | |
| • Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (RCC) – Dywedodd HN nad oedd y papur yn darparu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol ac roedd yn cwestiynu ei ddiben. Teimlwyd hefyd y dylai cynrychiolydd RCC fod yn aelod o'r Bwrdd. Cytunodd PW i wirio aelodaeth a thrafod â RDCs/ RCCs.<br>• Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl (SPIN)<br>- Cyflwynodd Nigel Stannard ei hun fel cynrychiolydd newydd rhwydwaith SPIN.<br>- Mynychodd Ruth Studley gyfarfod SPIN blaenorol (ar 25 Ionawr) i ddarparu'r newyddion diweddaraf ar gyllido hyblyg. Mae gan ALlau safbwynt cytbwys ar Gyllido Hyblyg ac yn gallu gweld | PW i fynd ar drywydd cynrychiolydd RCC |

| | |
|---|---|
| elfennau cadarnhaol a negyddol. Fodd bynnag mae ALlau yn teimlo bod diffyg gwybodaeth a chyfathrebu ynglŷn â'r penderfyniadau a wneir.<br>- Gofynnwyd bod copi o gofnodion y cyfarfodydd SPIN yn cael ei rannu â'r Bwrdd. - Bydd cyfarfod nesaf SPIN ar 25 Ebrill. Mae'r eitemau i'w cwmpasu yn cynnwys: Tai yn Gyntaf, Credyd Cynhwysol a Chynllun Gweithredu Cysgu Allan.<br>• Grŵp Ymchwil a Chyllid – hoffai'r grŵp gael y cyfle i fwydo i mewn i'r grŵp Braenaru. Mae rhannu data yn wahanol ym mhob ALl, a byddai'r grŵp yn croesawu cyflwyniad gan Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yng nghyfarfod SPNAB ym mis Mehefin.<br>• Cymorth Cymru –<br>- mae'r hyfforddiant ar sail trawma yn cael ei gyflwyno ac mae nifer y bobl sy'n manteisio ar yr hyfforddiant wedi bod yn ardderchog â mwy na 1000 o bobl wedi cofrestru.<br>- Mae Rhwydwaith Tai yn Gyntaf yn mynd yn dda a chynhelir trafodaethau defnyddiol.<br>- Cynhelir Cynhadledd Flynyddol Cymorth ar 15 Mawrth.<br>- Cynhaliwyd sesiynau briffio ar GDPR.<br>- Datblygu ymarfer da ar gyfer camddefnyddio sylweddau a digartrefedd.<br>- Ymwneud â pharatoi ar gyfer digwyddiadau Ymgysylltu SAR<br>• Cofrestr Risgiau - nodwyd bod angen diweddaru'r ddogfen cyn y cyfarfod nesaf.<br>• Newyddion diweddaraf adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC). Mynegwyd pryderon ynglŷn ag ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r sector am y newidiadau.<br>- Yn aros i'r PAC gloi ei ymchwiliad a chyhoeddi ei argymhellion. Bydd angen inni ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad. | Copi o'r cofnodion SPIN i gael ei ddosbarthu i'r grŵp<br><br>LlC i drefnu cyflwyniad SAIL ar gyfer Mehefin<br><br>LlC i ddiweddaru'r gofrestr risg a'i ddosbarthu ar gyfer sylwadau cyn y cyfarfod nesaf |
| **6. Adroddiad ar Ddigwyddiad Defnyddwyr Gwasanaeth Cymorth** | |
| • Cynhaliwyd tri digwyddiad rhanbarthol i ddefnyddwyr gwasanaeth ym mis Ionawr ag oddeutu 100 o bobl yn mynychu. Dosbarthwyd arolwg hefyd, a gafodd ei gwblhau gan 50 o ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>• O ganlyniad i'r digwyddiadau mae adroddiad wedi'i gynhyrchu "Experts by Experience", a chafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r adborth a gasglwyd yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth o wahanol ddarparwyr cymorth ac mae'n gynrychiolaeth onest o'u safbwyntiau.<br>• Roedd y digwyddiadau ymgysylltu hefyd yn cwmpasu'r hyn nad yw wedi gweithio'n dda neu y gellir ei wella; | |

| | |
|---|---|
| defnyddir y sylwadau hyn i edrych ar le y mae angen gwneud gwelliannau.<br>• Gofynnodd NA a oes data cydraddoldeb ar gael am y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg/digwyddiad defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd KD na chofnodir y math hwn o wybodaeth ar hyn o bryd oherwydd bod defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno aros yn ddienw a gallai gofyn am y math hwn o wybodaeth atal pobl rhag cymryd rhan. Ond bydd hi'n ystyried sut y gellid gwneud hyn ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol heb gyfaddawdu anhysbysrwydd.<br>• Argymhellodd PW fod yr adroddiad yn cael ei rannu â'r prosiect cyllido hyblyg ac Awdurdodau Lleol.<br>• Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno'n swyddogol yng Nghynhadledd Flynyddol Cymorth ar 15 Mawrth gan dau ddefnyddiwr gwasanaeth a gymerodd ran yn y digwyddiadau. | |
| **7. Newyddion diweddaraf yr Adolygiad Llety â Chymorth (SAR)** | |
| • Cyflwynodd PW bapur â'r newyddion diweddaraf am SAR<br>• Eglurodd PW, fel rhan o ymgynghoriad ar draws y DU 'cyllid ar gyfer llety â cymorth', cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i drosglwyddo i Floc Cymru swm sy'n gyfwerth â'r swm na fydd bellach yn cael ei dalu trwy Fudd-dâl Tai, unwaith y bydd Credyd Cynhwysol yn berthnasol i breswylwyr llety â chymorth. Roedd y polisi hwn yn berthnasol i holl breswylwyr llety â chymorth safle sefydlog a gweithredir y newid ym mis Ebrill 2020.<br>• Cynllunnir sgwrs ffôn â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn yr ychydig ddyddiau nesaf. Mae angen diffiniad o lety tymor byr.<br>• Mae'r amserlen yr adolygiad yn cynnwys cyflawni;<br>    • Cyngor polisi ar arfarniad opsiynau erbyn diwedd mis Mai 2018<br>    • Cyngor opsiwn a ffafrir ddiwedd mis Medi<br>    • Bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y fframwaith yn rhedeg o fis Tachwedd 2018 hyd fis Ionawr 2019<br>    • Canllawiau i'w cyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2019<br>    • Blwyddyn gweithredu mis Mawrth 2019 hyd fis Mawrth 2020<br>    • Mynd yn fyw mis Ebrill 2020<br>Trefnwyd tri digwyddiad ymgynghori i randdeiliaid, ar y cyd â Cymorth a Chartrefi Cymunedol Cymru, ac maent yn agored i'r holl randdeiliaid.<br>    • 12fed Ebrill - Gogledd Cymru<br>    18fed Ebrill - Gorllewin Cymru<br>    26ain Ebrill - De Cymru.<br>• Dywedodd KD fod yr ymgysylltu a gweithio ar y cyd oddi wrth LIC ar y mater hwn wedi bod yn gadarnhaol. | |

| | |
|---|---|
| • Dylai CLlLC hefyd gymryd rhan yn y digwyddiadau i randdeiliaid a bydd PW yn estyn gwahoddiad. | |
| **8. UNRHYW FATER ARALL** | |
| • Yn unol â’r Safonau Iaith Gymraeg, cafodd dewis iaith y Bwrdd ar gyfer cyfarfodydd ei gwirio ag aelodau unwaith eto. Cytunodd y Bwrdd eu bod yn fodlon i'r cyfarfodydd parhau i gael eu cynnal yn Saesneg ond byddai angen gwirio â’r aelodau nad oeddent yn bresennol.<br>• Gofynnwyd i'r grŵp a oeddent yn hapus i’r diwrnod datblygu ym mis Medi symud i 19 Medi oherwydd argaeledd ystafelloedd addas. Cytunwyd ar hwn fel y dyddiad newydd. | JL i wirio dewisiadau iaith aelodau |
| **9. Cyfarfod nesaf** | |
| Dydd Llun 11 Mehefin, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd. | |